Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Julie Morgan AC
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Tachwedd 2019

Annwyl Julie,

Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

Ysgrifennaf atoch yn dilyn y sesiwn graffu gyhoeddus ar **6 Tachwedd 2019** pan wnaethom drafod ymchwiliad y Pwyllgor i hawliau plant yng Nghymru.

Yn ystod y sesiwn hon, mewn ymateb i gwestiwn am Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, gwnaethoch amlinellu i'r Pwyllgor sut mae'r holl asesiadau ar gael i'r cyhoedd drwy wefan Llywodraeth Cymru ac ar gais drwy fewnflwch pwrpasol. Mae hyn yn unol â'r Cynllun Hawliau Plant.

Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r Pwyllgor wedi gallu dod o hyd i restr o'r asesiadau o'r effaith ar hawliau plant sydd wedi'u cwblhau ar dudalennau Llywodraeth Cymru ar y we.

Yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhestr lawn o'r asesiadau sydd wedi'u cwblhau i'r Pwyllgor erbyn 27 Tachwedd 2019.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565